



Cynllun Iaith Gymraeg Diwygiedig Paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Chwefror 2012

Cynnwys

Datganiad o Egwyddor	3
1. Cyflwyniad	4
2. Cynllunio a darparu gwasanaethau	5
3. Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg	6
4. Gweithredu a monitro'r Cynllun	8
5. Trefniadau gweinyddu	9
6. Monitro	10

Datganiad o egwyddor

Paratowyd y Cynllun hwn yn unol ag Adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Yn dilyn agor swyddfa Ofgem yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf 2010, gwnaed mân newidiadau er mwyn ystyried y ffaith ein bod bellach yn gweithio yng Nghymru bob dydd ac er mwyn sicrhau bod Cynllun Iaith Gymraeg Ofgem yn parhau i fod yn addas at y diben cyn i Gomisiynydd y Gymraeg gael ei benodi ac unrhyw newidiadau a all ddod yn sgîl hynny. Ar gyfer y fersiwn hon, mae Ofgem yn egluro'r trefniadau ar gyfer gohebu ag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, ar gais Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Cafodd y Cynllun hwn gymeradwyaeth lawn Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar **20/02/2012**.

Sefydlwyd yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan ("GEMA" neu'r "Awdurdod") gan adran 1 ac Atodlen 1 i Ddeddf Cyfleustodau 2000 (fel y'i diwygiwyd). Mae paragraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn nodi y gall yr Awdurdod, gyda chymeradwyaeth Gweinidog y Gwasanaeth Sifil, o ran niferoedd a thelerau ac amodau gwasanaeth, benodi staff fel y'i gwêl yn briodol.

Lleolir staff yr Awdurdod yn y Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan (neu "Ofgem"), sef Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth a Chorff y Goron. Mae staff yr Awdurdod yn weision sifil, a gyflogir i weithredu penderfyniadau gweithredol yr Awdurdod.

Felly, gall "Ofgem", "GEMA" a'r "Awdurdod" gael eu defnyddio yn gyfnewidiol yn y ddogfen hon, contractau Ofgem ac mewn dogfennau amrywiol eraill.

Mae Ofgem yn ymrwymedig i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae Ofgem wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, cyhyd ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd Ofgem yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ac mae'n disodli ein Cynllun blaenorol dyddiedig 19 Ionawr 2011.

Yn y Cynllun hwn, mae'r term cyhoeddus yn golygu unigolion, unigolion cyfreithiol a chyfrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Caiff cyfarwyddwyr ac unigolion eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig eu cynnwys o fewn ystyr y term "cyhoeddus" hefyd. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys unigolion sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth na'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw unigolion sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus swyddogol, er eu bod yn unigolion cyfreithiol, wedi'u cynnwys o dan ystyr y gair cyhoeddus pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.



1. Cyflwyniad

1.1 Ofgem yw'r Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan. Ein nod yw cynnig dewis a gwerth i bob cwsmer nwy a thrydan, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth a rheoleiddio monopolïau.

1.2 Ym mis Medi 2009, ailstrwythurwyd Ofgem er mwyn ymateb i her yr agenda ynni carbon isel. Yn sgîl y gwaith ailstrwythuro, crëwyd uned fusnes newydd, sef Ofgem E-Serve, a fydd yn canolbwyntio ar weinyddu rhaglenni amgylcheddol a darparu prosiectau cynaliadwyedd megis gwynt ar y môr, mesuryddion smart, yr ardoll arfaethedig ar gyfer dal a storio carbon, a thariffau bwydo i mewn. Gelwir yr uned fusnes arall, sy'n gweithredu fel rheoleiddiwr y diwydiant, yn Ofgem o hyd.

1.3 Mae Ofgem ac Ofgem E-Serve yn rhan o Grŵp Ofgem, a reolir gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan, y rhoddir pwerau a dyletswyddau iddo drwy statud, yn bennaf drwy Ddeddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989, Deddf Cyfleustodau 2000, Deddf Cystadleuaeth 1998, Deddf Menter 2002, Deddf Ynni 2004, yn ogystal â deddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd sydd mewn grym. Mae cyfeiriadau at Ofgem yn y Cynllun hwn yn golygu Ofgem ac Ofgem E-Serve.

1.4 Ers mis Gorffennaf 2010, mae gan Ofgem swyddfa yng Nghaerdydd i oruchwylio cydberthnasau â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru.

Trefniadau ar gyfer cynrychioli defnyddwyr ynni

1.5 O dan y trefniadau ar gyfer cynrychioli defnyddwyr, pan fydd gan ddefnyddiwr ynni domestig neu microfusnes (troednodyn 1) gŵyn neu ymholiad ynghylch cwmni cyflenwi ynni neu weithredwr rhwydwaith, dylai gysylltu â'r cwmni'n uniongyrchol yn gyntaf. Os na ellir ymdrin â chwyn o fewn wyth wythnos neu os na ellir dod i gytundeb, gall y defnyddiwr gysylltu â'r Ombwdsmon Ynni. Mae'r Ombwdsmon Ynni yn ymdrin â chwynion gan gwsmeriaid domestig a microfusnesau yn erbyn unrhyw un o'r cwmnïau cyflenwi ynni neu weithredwyr rhwydwaith.

1.6 Mae Cyswllt Defnyddwyr, a ariennir gan y Swyddfa Masnachu Teg, yn cynnig gwybodaeth a chynghor am ddim i ddefnyddwyr ynni a gall gyfeirio defnyddwyr at y corff perthnasol i ymdrin â'u hymholiad. Pan fydd Cyswllt Defnyddwyr yn nodi bod defnyddiwr yn agored i niwed, yn wynebu cael ei ddatgysylltu neu wedi'i ddatgysylltu, gall gyfeirio'r cwsmer at uned cymorth ychwanegol Llais Defnyddwyr i gael cymorth ychwanegol i ddatrys ei gŵyn. Pan fydd Llais Defnyddwyr yn nodi materion polisi o bwys ehangach, bydd yn codi'r rhain gydag Ofgem neu'r Llywodraeth fel y bo'n briodol.

1.7 Nid yw Ofgem yn ymchwilio i gwynion unigol gan ddefnyddwyr nac yn ymateb i ymholiadau ynni cyffredinol. Fodd bynnag, byddwn yn ymateb i unrhyw gwestiynau am ein rôl neu'n polisïau. Gallwn ymateb yn Gymraeg i lythyrau neu negeseuon e-bost gan ddefnyddwyr sy'n siarad Cymraeg.

1.8 Caiff y gwaith o weinyddu'r Cynllun hwn o ddydd i ddydd ei ddirprwyo fel y nodir isod a dylid anfon unrhyw ymholiadau am y Cynllun hwn at:

Cydgysylltydd y Cynllun Iaith Gymraeg, Ofgem, 1 Pentir Caspian, Ffordd Caspian, Bae Caerdydd, CF10 4DQ Ffôn: 029 2044 4042

Mae'r Llywodraeth yn diffinio microfusnes fel busnes sy'n defnyddio hyd at 55,000 kWh o drydan bob blwyddyn; neu sy'n defnyddio hyd at 200,000 kWh o nwy bob blwyddyn; neu fusnes â llai na deg cyflogai cyfwerth ag amser llawn a throsiant blynyddol neu fantolen flynyddol o hyd at €2 filiwn.

2. Cynllunio a darparu gwasanaethau

Polisiâu a mentrau newydd

2.1 Wrth lunio polisiâu a mentrau newydd, bydd Ofgem yn:

- asesu canlyniadau ieithyddol polisiâu a mentrau newydd
- sicrhau bod polisiâu a mentrau newydd yn gyson â'r Cynllun ac nad ydynt yn ei danseilio
- ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn gwneud unrhyw gynigion a fydd yn effeithio ar y Cynllun neu Gynllun unrhyw sefydliad arall, ac ni fydd yn diwygio'r Cynllun heb gytundeb y Bwrdd
- sicrhau bod pob aelod o staff sy'n rhan o lunio polisiâu a mentrau newydd yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg,
- hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg lle y bo'n briodol.

Darparu gwasanaethau

2.2 Bydd Ofgem yn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r Cynllun a'i gyfrifoldebau o dan y Ddeddf drwy friffio staff a chyhoeddi a hyrwyddo Cynllun Iaith Gymraeg Ofgem ar Fewnrwyd Ofgem.

Safon gwasanaethau yn Gymraeg

2.3 Mae Ofgem yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael yr un safon uchel o wasanaeth â siaradwyr Saesneg wrth ohebu ag Ofgem.

2.4 Mae gan Ofgem systemau ar waith ar gyfer monitro amseroedd ymateb yn erbyn targedau mewnol. Mae ganddi'r un targedau ar gyfer ymateb i lythyrau a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

3. Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Gohebiaeth

3.1 Mae Ofgem yn delio'n bennaf â diwydiant a grwpiau defnyddwyr yn hytrach na defnyddwyr unigol.

3.2 Fodd bynnag, mae Ofgem yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg, ynddo'i hun, yn arwain at oedi. Bydd llythyrau, a gaiff eu derbyn yn Gymraeg, yn cael ateb dros dro ac yna ymateb ffurfiol yn Gymraeg. Bydd gohebiaeth ysgrifenedig a gychwynnir gan Ofgem ag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, yn ogystal â chylchlythyrau a llythyrau safonol, yn ddwyieithog.

3.3 Caiff pob neges e-bost a dderbynnir yn Gymraeg ei hateb yn Gymraeg. Caiff yr un polisiau eu cymhwyso ar gyfer negeseuon e-bost ag ar gyfer gohebiaeth ysgrifenedig arall.

3.4 Mae Ofgem yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu sy'n meddu ar gymwysterau addas wrth ohebu â rhanddeiliaid sydd wedi ysgrifennu ati yn Gymraeg.

Cyfathrebu dros y ffôn

3.5 Caiff y sawl sy'n ffonio'r swyddfa yng Nghaerdydd eu cyfarch yn Gymraeg, er mwyn dangos yn glir bod modd iddynt barhau â'r alwad yn Gymraeg os ydynt am wneud hynny. Yn ein swyddfeydd yn Llundain a Glasgow, atebir galwadau yn Saesneg. Cyfeirir unrhyw un sy'n ffonio ein swyddfeydd y tu allan i Gymru ac sy'n nodi yr hoffent gael ymateb yn Gymraeg at ein swyddfa yng Nghaerdydd.

Cyfarfodydd cyhoeddus

3.6 Bydd Ofgem yn sicrhau y gall unrhyw un sydd am fynd i'w chyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru gyfrannu atynt yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd hysbysïadau cyhoeddus, llythyrau, gwahoddiadau, posterï a hysbysebion sy'n nodi trefniadau'r cyfarfodydd hyn yn ddwyieithog. Byddant yn nodi y dylai'r rheini sy'n bwriadu mynychu neu gyfrannu nodi ymlaen llaw yr iaith yr hoffent ei defnyddio fel y gellir gwneud trefniadau cyfieithu priodol. Bydd deunydd ysgrifenedig a ddsberthir mewn cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, y bwriedir i bobl fynd ag ef o'r cyfarfod, yn ddwyieithog lle y bo'n bosibl. Lle y bo'n bosibl, bydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg wrth law i groesawu aelodau o'r cyhoedd yn ddwyieithog ar sail cydraddoldeb.

Cyhoeddiadau

3.7 Ar y cyfan, mae cyhoeddiadau Ofgem o natur dechnegol ac wedi'u hanelu'n bennaf at y diwydiant nwy a thrydan ac at sefydliadau defnyddwyr perthnasol yn hytrach na defnyddwyr nwy a thrydan, a chânt eu cyhoeddi yn Saesneg.

3.8 Caiff taflenni Ofgem a anelir at ddefnyddwyr eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. Ar y cyfan, caiff ein taflenni eu cyhoeddi fel fersiynau electronig sydd ar gael i'w llwytho i lawr o'n gwefan, er y gall rhai taflenni, lle y bo'n briodol, gael eu hargraffu a'u gwneud ar gael i'w dosbarthu fel rhan o ymgyrchoedd defnyddwyr. Lle y bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau y caiff taflenni Cymraeg a Saesneg eu cyhoeddi ar yr un diwrnod.

3.9 O dan amgylchiadau eithriadol, bydd Ofgem yn cyhoeddi'r fersiwn Saesneg ac yna'n sicrhau bod fersiwn Gymraeg ar gael cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.

Hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru

3.10 Ers agor y swyddfa yng Nghaerdydd a recriwtio staff amser llawn i weithio yng Nghymru, mae Ofgem yn ymrwymedig i fabwysiadu a chyflwyno hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog yng Nghymru, gan gynnwys defnyddio cyfeiriad dwyieithog yn ogystal â logo corfforaethol sydd â slogan ddwyieithog.

Hysbysiadau i'r wasg a gweithgareddau cyhoeddusrwydd eraill

3.11 Mae Ofgem yn cyhoeddi nifer fawr o hysbysiadau i'r wasg bob blwyddyn, yn aml ar fyr rybudd. Cyhoeddir pob hysbysiad i'r wasg o'n swyddfa yn Llundain fel mater o drefn ac yn Saesneg yn unig. Ar achlysuron pan gyhoeddir datganiadau i'r wasg o'r swyddfa yng Nghaerdydd ar fater sy'n benodol i Gymru, bwriedir eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

3.12 Mae deunydd arddangos a gwybodaeth a ddefnyddir mewn arddangosfeydd a digwyddiadau hyrwyddo yng Nghymru yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yn cael yr un sylw â'i gilydd.

3.13 Mae Ofgem yn cadw rhestr o lefarwyr sy'n gallu cynrychioli Ofgem yn yr iaith Gymraeg.

Cyfathrebu dros y Rhyngrwyd

3.14 Mae Ofgem yn darparu adran Gymraeg ar ei gwefan sy'n disgrifio'r sefydliad ac yn rhoi cyngor i ddefnyddwyr nwy a thrydan ar y gwasanaethau a ddarperir ganddi. Mae pob un o gyhoeddiadau Ofgem yn yr iaith Gymraeg wedi'i restru a'i gyhoeddi ar yr hafan Gymraeg.

Hysbysiadau recriwtio staff

3.15 Os bydd angen recriwtio staff neu osod hysbysebion eraill yng Nghymru, bydd Ofgem yn sicrhau y caiff hysbysiadau eu cyhoeddi yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau yn yr iaith Gymraeg, yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau eraill ac yn Saesneg yn unig yng ngwasg arbenigol y DU.

Hysbysiadau swyddogol a hysbysebion

3.16 Bydd Ofgem yn cyhoeddi hysbysiadau swyddogol dwyieithog mewn perthynas â materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd yn cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus dwyieithog mewn papurau newydd Saesneg yng Nghymru a hysbysiadau yn Gymraeg yn unig mewn papurau newydd Cymraeg.

Arolygon a ffurflenni

3.17 Os bydd Ofgem yn cynnal unrhyw arolygon yng Nghymru, bydd yn sicrhau bod yr holiaduron ar gael yn ddwyieithog a'u bod yn cynnwys cwestiwn am y gwasanaeth Cymraeg a gafwyd. Bydd unrhyw ffurflenni a gynhyrchir i'w cwblhau gan aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar wahân. Pan gynhyrchir fersiynau Cymraeg a Saesneg o ffurflenni ar wahân, fe'u cyhoeddir ar yr un pryd, bydd yr un mor rhwydd i gael gafael arnynt ym mhob un o'r manau dosbarthu, ac fe'u dosberthir gyda'i gilydd.

4. Gweithredu a monitro'r Cynllun

Staffio a recriwtio

4.1 Mae gan Ofgem swyddfa yng Nghymru. Ar gyfer unrhyw swyddi a leolir yn y swyddfa hon, byddwn yn ystyried pa un a ddylai rhuglder yn y Gymraeg fod yn sgil ddymunol neu'n sgil hanfodol - a chaiff hyn ei ddatgan mewn cymwyseddau a hysbysebion swyddi.

Hyfforddiant iaith

4.2 Os bydd Ofgem yn gofyn i staff ddysgu Cymraeg ar unrhyw adeg yn y dyfodol, caiff staff perthnasol eu hannog i fynychu cyrsiau hyfforddi yn yr iaith Gymraeg. Bydd Ofgem yn cefnogi unrhyw aelod o'i staff a anogir i ddysgu Cymraeg drwy ddarparu adnoddau ariannol ac adnoddau eraill, gan gynnwys amser i fynychu cyrsiau ac amser i astudio. Bydd rhaglen ddysgu a chyfleoedd hyfforddi ar gael i staff perthnasol sydd am wella eu Cymraeg.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

4.3 Byddwn yn ystyried yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn, wrth ddatblygu, cynllunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Wrth i ni ddatblygu neu gaffael systemau TGCh byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau'r Bwrdd ar gyfer Meddalwedd Ddwyieithog.

5. Trefniadau gweinyddol

5.1 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cymeradwyo'r ymrwymïadau a'r trefniadau a nodir yn y Cynllun hwn. Mae'r ymrwymïadau a'r trefniadau yn y Cynllun hwn wedi'u cymeradwyo gan Bwyllgor Rheoli Ofgem.

5.2 Bydd Ofgem yn sicrhau bod pob aelod perthnasol o staff yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau Ofgem o dan y Ddeddf drwy gynnal sesiynau briffio staff lle y bo'n briodol a thrwy roi nodiadau canllaw i staff.

5.3 Bydd Ofgem yn cadw cofrestr o gyfieithwyr sy'n meddu ar gymwysterau addas y mae eu gwasanaethau ar gael i staff wrth ymateb i gwsmerïaid a pharatoi deunydd i'w gyhoeddi.

Gwasanaethau eraill o dan gontract

5.4 Pan fydd Ofgem yn cyflogi contractwyr neu ymgynghorwyr i weithredu ar ei rhan ar faterion sy'n benodol i Gymru, bydd yn sicrhau eu bod yn cael copi o'r Cynllun hwn a'u bod yn cytuno i weithredu yn unol â'r egwyddorion a'r ymrwymïadau a nodir mewn unrhyw ddogfennau tendro neu gontractau.

5.5 Bydd Ofgem yn gofyn i gontractwyr ac ymgynghorwyr gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar eu perfformiad o ran y Cynllun.

5.6 Wrth drafod â chyflenwyr ynni a chwmnïau rhwydwaith sy'n dymuno cyflenwi cwsmerïaid yng Nghymru neu sy'n gwasanaethu cwsmerïaid yng Nghymru, bydd Ofgem yn annog chyflenwyr a chwmnïau rhwydwaith i ddarparu gwasanaethau iaith Gymraeg; er enghraifft, bydd yn eu hannog i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i gwsmerïaid gan gynnwys biliau, gohebiaeth, gwasanaethau dros y ffôn, taflenni gwybodaeth a chontractau. Rhoddir cyngor ar y rhain mewn trafodaethau ar Godau Ymarfer ac unrhyw ganllawiau a roddir.

Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

5.7 Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn ei chyfieithu i ddewis iaith y ceisydd ar yr amod bod nifer y geiriau y mae angen eu cyfieithu yn llai na 500.

6. Monitro

6.1 Bydd Cyfarwyddwr Ofgem ar gyfer Cysylltiadau Allanol Prydain Fawr, yr Alban a Cymru yn monitro'r Cynllun ac fel rhan o'r broses fonitro yn llunio adroddiad blynyddol ar berfformiad Ofgem. Bydd hwn yn cynnwys sylwadau, lle y bo'n briodol, ar yr agweddau canlynol:

Blaengynllunio a chaffael

6.2 Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau newydd yn ystyried yr angen i ddarparu gwasanaethau dwyieithog fel y nodir yn y ddogfen hon.

Trefnu a Darparu Gwasanaethau

6.3 Os bydd Ofgem yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg, bydd yn monitro'r ffordd y'u darperir a'u heffeithiolrwydd.

Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

6.4 Monitro amseroedd ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg a threfniadau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir yng Nghymru.

Gwasanaethau o dan contract yn Gymraeg

6.5 Cyflwyno adroddiadau, os yw'n berthnasol, ar sut mae contractwyr ac ymgynghorwyr Ofgem yng Nghymru wedi cydymffurfio â'r Cynllun.

Achwynion

6.6 Rhoi sylwadau, os yw'n berthnasol, ar nifer a natur y cwynion am wasanaethau iaith Gymraeg Ofgem a sut yr ymdriniwyd â hwy.

Hyrwyddo'r Gwasanaeth Dwyieithog

6.7 Bydd cyhoeddiadau Ofgem, lle y bo'n briodol, yn ei gwneud yn glir bod fersiwn iaith Gymraeg o'r cyhoeddiad ar gael.

Cwynion

6.8 Dylai unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd â phryderon am wasanaethau Ofgem yn Gymraeg gysylltu â chydgyssylltydd Cynllun Iaith Gymraeg Ofgem yn gyntaf. Nodir ei fanylion cyswllt yn y cyflwyniad i'r Cynllun.

6.9 Os bydd unrhyw aelod o'r cyhoedd o'r farn bod ymateb Ofgem yn anfoddhaol, dylai godi'r mater gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cyflwyno Adroddiadau i Fwrdd yr Iaith Gymraeg

6.10 Bydd Ofgem yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ar ffurf a gymeradwyir gan y bwrdd, ar ei Chynllun Iaith Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn disgrifio'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r mesurau yn y Cynllun yn erbyn yr amserlen a'r safonau a gymeradwywyd, a bydd yn dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella a geir gan y cyhoedd.

Atodiad A: Prif dargedau ar gyfer cyflawni'r Cynllun	Sut y caif ei gyflawni a dyddiad cwblhau
Monitro, egluro ac ymateb i newidiadau i ddeddfwriaeth ar yr Iaith Gymraeg.	Rhoi'r newyddion diweddaraf i staff am y modd y gweithredir Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, tra'n aros am ganllawiau pellach gan y Bwrdd/Comisiynydd – parhaus.
Parhau i ddatblygu arfer gorau o ran cyhoeddiadau dwyieithog gan ganolbwyntio ar bresenoldeb ar-lein.	Cynnal safonau a sefydlwyd ar gyfer deunyddiau sydd wedi'u hargraffu – parhaus. Gweithio gyda'r adran Gyfathrebu i sicrhau bod adolygiad ehangach parhaus o'r strategaeth ddigidol yn mynd i'r afael â'r angen am wybodaeth ddwyieithog i ddefnyddwyr - parhaus.
Arfarnu gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg yn y sefydliad cyfan.	Cysylltu â'r adran Adnoddau Dynol er mwyn monitro ac adolygu data a gesglir o holiaduron i newydd-ddyfodiaid bob blwyddyn. Gweithio gyda'r adran Adnoddau Dynol er mwyn ehangu'r data hwn fel ei fod yn cynnwys pob aelod o staff – Rhagfyr 2012.
Bydd newydd-ddyfodiaid i Ofgem yn parhau i gael gwybod am y Cynllun a'r canllawiau sydd ar gael iddynt.	Mae'r rhaglen sefydlu a gynhelir gan yr adran Dysgu a Datblygu yn cyfeirio at y Cynllun ac yn rhoi manylion cyswllt ar gyfer cyngor ar gysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru - parhaus.
Sicrhau bod y gofyniad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i ddefnyddwyr yn rhan annatod o'r broses o gynllunio gwasanaethau newydd.	Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'n Cynllun Iaith Gymraeg ym mhob un o'r timau polisi drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn – parhaus. Cysylltu â thimau polisi sy'n gweithio ar weithgarwch sydd wedi'i anelu at ddefnyddwyr, yn arbennig mentrau newydd - parhaus.
Ymchwilio i faterion defnyddwyr gan gynnwys ystyried unrhyw faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.	Gweithio gyda Pholisi Defnyddwyr, gan gynnwys cynnal ymchwil benodol â defnyddwyr Iaith Gymraeg fel sy'n briodol drwy gyfweiliadau manwl a grwpiau ffocws yn Gymraeg – parhaus.